Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Bro Ingli
# Heol Hir
# Trefdraeth
# Sir Benfro
# SA42 0TL

## Dyddiad yr arolygiad: Medi 2018

## gan

## Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

## Ynglŷn ag Ysgol Bro Ingli

Lleolir Ysgol Bro Ingli yn nhref Trefdraeth, yn awdurdod lleol Sir Benfro. Mae 103 disgybl rhwng 3 ac 11 oed ar y gofrestr. Cymraeg yw prif gyfrwng gwaith a bywyd yr ysgol.

Dros dreigl tair blynedd, mae ychydig dros 2% o'r disgyblion yn gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim. Mae hyn yn sylweddol is na'r ganran genedlaethol, sy'n 18%. Mae tua 20% o'r disgyblion yn siarad Cymraeg gartref ac ychydig iawn sydd o gefndir lleiafrifol ethnig.

Mae'r ysgol wedi adnabod 10% o'i disgyblion fel rhai sydd ag anghenion dysgu ychwanegol, ac ychydig iawn ohonynt sydd â datganiad o anghenion addysgol arbennig. Mae'r ganran sydd ag anghenion dysgu ychwanegol yn sylweddol is na'r ganran genedlaethol, sy'n 21%.

Penodwyd y pennaeth i'w swydd ym mis Medi 2012 ac arolygwyd yr ysgol ddiwethaf ym mis Ebrill 2014.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol, yn y ddolen isod.
http://mylocalschool.wales.gov.uk/index.html?iath=cym

## Crynodeb

Yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol, mae llawer o'r disgyblion yn caffael medrau cyfathrebu Cymraeg pwrpasol ac maent yn cyflawni'n gadarn wrth siarad a darllen, o ystyried eu mannau cychwyn. Mae medrau Saesneg llawer ohonynt wrth sgwrsio, cyflwyno a darllen yn datblygu'n dda. Ychydig o ddisgyblion sy'n arddangos eu gwir alluoedd yn llwyddiannus wrth ysgrifennu yn y Gymraeg a'r Saesneg. Mae llawer yn llwyddo i ddatblygu eu cysyniadau mathemategol a'u medrau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) yn effeithiol. Mae'r athrawon a'r cymorthyddion yn gofalu'n fwriadus am eu disgyblion ac yn cynnig arweiniad a chymorth teyrngar iddyn nhw a'u rhieni. O ganlyniad, mae'r disgyblion yn teimlo'n ddiogel iawn yn yr ysgol ac yn datgan clod i staff yr ysgol am eu gofal synhwyrol a'u hymroddiad tuag at eu anghenion a'u diddordebau. Yn ogystal, maent yn ofalgar o'i gilydd ac yn parchu eu cyfoedion ac oedolion. Mae gan y pennaeth ddealltwriaeth gadarn o anghenion yr ysgol. Mae hi'n adnabod bod angen gwella agweddau o'r addysgu a'r cynllunio i godi safonau. Mae nifer o gynlluniau newydd ar waith ganddi hi a'r llywodraethwyr i gyflawni'r gwelliannau. Hyd yma, nid ydynt wedi gwreiddio'n llawn i gael effaith ar y ddarpariaeth a safonau'r disgyblion.

| Maes arolygu | Barn |
|---|---|
| **Safonau** | **Digonol ac angen gwella** |
| **Lles ac agweddau at ddysgu** | **Da** |
| **Addysgu a phrofiadau dysgu** | **Digonol ac angen gwella** |
| **Gofal, cymorth ac arweiniad** | **Da** |
| **Arweinyddiaeth a rheolaeth** | **Digonol ac angen gwella** |

## Argymhellion

R1 Gweithredu'r strategaethau arweinyddiaeth newydd i wella'r ddarpariaeth a chodi safonau

R2 Gwella medrau ysgrifennu disgyblion a chyflwyniad eu gwaith ar draws y cwricwlwm

R3 Sicrhau bod disgyblion yn cymhwyso eu medrau rhifedd yn fwriadus i ddatrys problemau yn annibynnol ar draws y cwricwlwm

R4 Cysoni ansawdd yr addysgu a'r cynllunio i wella deilliannau'r disgyblion

## Beth sy'n digwydd nesaf

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion. Bydd Estyn yn adolygu cynnydd yr ysgol.

## Prif ganfyddiadau

**Safonau: Digonol ac angen gwella**

Mae ychydig o’r disgyblion yn cychwyn yr ysgol â medrau cyfathrebu Cymraeg sy’n cyfateb i’r safon a ddisgwylir am eu hoed. Wrth ymroi i athroniaeth yr ysgol, mae llawer yn caffael medrau cyfathrebu Cymraeg effeithiol ac yn cyflawni’n gadarn. Mae rhan fwyaf ohonynt yn cyfathrebu yn Saesneg yn hyderus gan ddefnyddio iaith goeth. Maent yn datblygu medrau rhifedd priodol ar draws yr ysgol. Mae'r disgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol yn cyflawni’n dda yn erbyn eu targedau personol.

Mae llawer o’r disgyblion yn gwella’n gynyddol wrth ddatblygu eu medrau llafar a gwrando. Yn fuan ar ôl dechrau’r ysgol, maent yn deall bod gwrando’n astud ar oedolion ac ar ei gilydd yn rhan annatod o’u haddysg. O ganlyniad, mae llawer yn sgwrsio’n huawdl am eu gwaith wrth symud drwy’r ysgol. Er enghraifft, mae disgyblion y cyfnod sylfaen yn esbonio’n frwdfrydig pam maent yn dewis gwrthrychau gwahanol fel blociau a chlipiau papur i fesur hyd ac uchder. Mae medrau llafar Saesneg rhan fwyaf o’r disgyblion yng nghyfnod allweddol 2 yn aeddfed. Er enghraifft, wrth iddynt drafod effaith drwg ysbwriel ar y traeth.

Mae rhan fwyaf o’r disgyblion yn datblygu medrau darllen effeithiol. Yn y cyfnod sylfaen, maent yn darllen ystod eang o destunau yn y Gymraeg yn eglur. Mae’r rhan fwyaf yn trafod cynnwys eu llyfrau’n ddoeth ac ymateb yn synhwyrol i deimladau eu hoff gymeriadau. Maent yn defnyddio strategaethau ffonig i adeiladu ac ynganu geiriau anghyfarwydd yn bwrpasol. Mae rhan fwyaf o’r disgyblion yng nghyfnod allweddol 2 yn darllen yn ystyrlon yn y ddwy iaith. Maent yn mwynhau llyfrau ffuglen a ffeithiol, ac yn defnyddio’r we yn ddeallus, er enghraifft wrth ymchwilio i awyrennau’r Ail Ryfel Byd a bywyd ifaciwi. O ganlyniad, maent yn ymarfer eu medrau darllen uwch yn effeithiol ac yn cywain gwybodaeth o wahanol ffynonellau trwy ddefnyddio llyfrau, taflenni ffeithiol a thechnoleg gwybodaeth.

Ar draws yr ysgol, nid yw disgyblion yn ysgrifennu mewn ystod o gyd-destynau yn ddigon effeithiol. Yn y cyfnod sylfaen, ychydig iawn o ddisgyblion sy’n ysgrifennu darnau dealladwy yn annibynnol. Nid yw safonau ysgrifennu estynedig y rhan fwyaf yn adlewyrchu eu gwir alluoedd. Yng nghyfnod allweddol 2, ychydig iawn o ddisgyblion sy’n ysgrifennu’n ymestynnol ac ystyrlon yn y ddwy iaith i ystod o bwrpasau. Er enghraifft, er eu bod nhw’n portreadu enwogion Cymru ac yn olrhain eu gyrfaoedd ac yn ystyried dwysedd hylifau, nid yw eu gwaith gorffenedig yn adlewyrchu dyfnder o ddealltwriaeth. O ganlyniad, nid yw’r disgyblion yn ysgrifennu cystal ag y gallant, yn enwedig y disgyblion uwch eu gallu. Yn ogystal, nid yw llawysgrifen a chyflwyniad llawer o’r disgyblion yn daclus.

Ar y cyfan, mae gan lawer o ddisgyblion ar draws yr ysgol ddealltwriaeth gadarn o gysyniadau rhif. Maent yn dilyn cyfarwyddiadau i gymhwyso’u gwybodaeth yn bwrpasol yn ystod gwersi. Enghraifft dda yw’r ffordd y mae disgyblion y cyfnod sylfaen yn amcangyfrif hyd gwrthrychau gwahanol fel beiciau a lasys clown ac adnabod nodweddion siapiau wrth adeiladu pabell syrcas.

Mae llawer o’r disgyblion yng nghyfnod allweddol 2 yn defnyddio data yn gynyddol gywir a’i gyflwyno mewn amryw ffurf, dan arweiniad yr athro, i gyflawni tasgau

mathemategol yn llwyddiannus. Er enghraifft, maent yn creu graff llinell i adlewyrchu curiad eu calonnau yn cyflymu. Fodd bynnag, lleiafrif o ddisgyblion ar draws yr ysgol sy'n dewis y dulliau mathemategol addas i gwblhau tasgau newydd yn annibynnol. O ganlyniad, lleiafrif sy'n cymhwyso eu medrau rhifedd yn fwriadus i ddatrys problemau ar draws y cwricwlwm.

Mae rhan fwyaf o'r disgyblion yn y cyfnod sylfaen yn defnyddio offer TGCh yn hyderus. Er enghraifft, maent yn defnyddio crwydryn electronig i deithio o gwmpas parc cenedlaethol yn Affrica ac yn recordio'i gilydd ar lwyfan wrth berfformio storïau cyfarwydd. Mae rhan fwyaf o'r disgyblion yng nghyfnod allweddol 2 yn arddangos medrau TGCh cadarn, gan gymhwyso'u medrau'n hyderus a dethol dulliau pwrpasol i gyflwyno'u gwaith. Er enghraifft, maent yn defnyddio basau data i gofnodi'r defnydd o docynnau dogni a chodio'n ddestlus i greu ffeiliau ffeithiau am yr Ail Ryfel Byd. Yn ogystal, mae llawer yn defnyddio cyfrineiriau diogel ar-lein yn effeithiol.

**Lles ac agweddau at ddysgu: Da**

Mae bron pob disgybl yn dangos balchder am eu hysgol ac yn teimlo'n ddiogel o fewn y naws gynhwysol a theuluol sydd yn bodoli. Maent yn hapus i drafod unrhyw bryderon gydag aelodau staff, gan fod yn hyderus eu bod yn gwrando arnynt. Mae gan ran fwyaf o'r disgyblion ddealltwriaeth gadarn o sut i gadw'n ddiogel ar-lein.

Mae ymddygiad bron pob disgybl tu mewn a thu allan i'r dosbarth yn gyson dda. Maent yn gwrtais ac yn dangos parch tuag at eu cyfoedion, y staff ac ymwelwyr. Mae rhan fwyaf yn ofalgar iawn o'i gilydd ac yn cydweithio a chydchwarae yn llwyddiannus. Cefnogir yr ethos o deulu a chydymdeimlad at eraill yn effeithiol iawn gan y 'ffrindiau chwarae'. Maent yn wyliadwrus iawn ar fuarth yr ysgol ac yn mynd yn syth i gynnig cymorth i unrhyw ddisgybl sydd yn unig neu'n drist.

Mae gan ran fwyaf o'r disgyblion ddealltwriaeth gadarn o sut i gadw'n iach trwy fwyta diet cytbwys ac yfed dŵr. Mae dealltwriaeth rhan fwyaf o'r disgyblion o bwysigrwydd cadw'n heini yn dda. Yn ogystal â'r gwersi ymarfer corff rheolaidd, maent yn cymryd rhan mewn amrywiaeth o weithgareddau diddorol er mwyn gwella eu ffitrwydd. Un enghraifft dda yw'r teithiau cerdded 'bant â'r cart' wythnosol i ddisgyblion y cyfnod sylfaen.

Mae gan lawer o'r disgyblion ar draws yr ysgol agweddau cadarnhaol at eu dysgu. Maent yn gwrando'n astud ar gyfarwyddiadau'r athrawon ac yn canolbwyntio'n dda ar eu gwaith yn ystod gwersi. Mae llawer yn ddysgwyr brwdfrydig, sy'n ymroi i brofiadau newydd yn hyderus. Mae rhan fwyaf ohonynt yn barod iawn i drafod eu gwaith gyda'u cyfoedion. Mae'r cydweithio llwyddiannus hwn yn nodwedd gref ac yn weladwy ymhob dosbarth. O ganlyniad, mae rhan fwyaf o'r disgyblion yn dangos parch tuag at gyfraniadau eraill ac yn ymateb yn gadarnhaol i'w syniadau. Mae rhan fwyaf o'r disgyblion yn cyfrannu'n fuddiol i'w dysgu trwy gynnig syniadau i'w cynnwys yn y themâu tymhorol. Mae'r disgyblion yn ehangu eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth yn dda. Maent yn manteisio ar gyfleoedd i ymweld ag ardaloedd lleol fel Castell Henllys a bedd Jemima Nicholas.

Mae'r disgyblion yn manteisio ar y cyfleoedd da mae'r ysgol yn eu darparu iddynt i gymryd cyfrifoldebau. Maent yn ymgymryd â'u gwaith yn gydwybodol a hyderus, gyda dealltwriaeth gadarn o'u rolau o fewn yr ysgol. Mae aelodau'r cynghorau ysgol,

eco, Cymreictod a digidol yn cyfrannu'n fuddiol i fywyd yr ysgol. Er enghraifft, mae'r cyngor digidol wedi trefnu gweithgareddau codi arian i brynu adnoddau TGCh ychwanegol ac mae'r cyngor ysgol wedi cyflwyno sioe gwrth-fwlio i weddill y disgyblion.

Mae rhan fwyaf o'r disgyblion yn datblygu dealltwriaeth dda o bwysigrwydd dinasyddiaeth foesol trwy eu hymwybyddiaeth o'r gwerthoedd sydd yn cael eu hyrwyddo gan yr ysgol. Mae'r disgyblion hŷn yn egluro pwysigrwydd gwerthoedd moesol fel caredigrwydd, goddefgarwch a chydweithrediad mewn modd aeddfed a deallus.

**Addysgu a phrofiadau dysgu: Digonol ac angen gwella**

Mae'r athrawon a'r cymorthyddion yn cydweithio'n llwyddiannus i hybu'r dysgu a rheoli ymddygiad y disgyblion yn llwyddiannus. Mae'r berthynas waith gynhaliol ymhob dosbarth yn meithrin parch a chwrteisi ac yn creu awyrgylch gynhyrchiol. Mae'r holl oedolion yn modelu iaith raenus ac yn annog a chefnogi'r disgyblion i ddefnyddio Cymraeg safonol a chywrain yn gyson. O ganlyniad, mae safonau llafar a darllen llawer o'r disgyblion yn gwella'n gyflym, o ystyried eu mannau cychwyn.

Mae egwyddorion y cyfnod sylfaen yn weithredol, ac mae'r athrawon yn sicrhau bod yr ardaloedd dysgu dan do yn bodloni anghenion y disgyblion yn effeithiol. Er enghraifft, maent yn cynllunio cyfleoedd addas i'r disgyblion ddatblygu eu medrau llafar trwy gyfatebu ansoddeiriau gyda chymeriadau diddorol. Mae'r ardal allanol yn datblygu'n foddhaol ac yn cynnwys defnydd o'r gegin fwd, garej chwarae rôl a'r ardal ddŵr.

Mae'r athrawon yn defnyddio dulliau addysgu cadarnhaol i effeithio'n bwrpasol ar safonau llawer o'r disgyblion. Yn y rhan fwyaf o ddosbarthiadau, mae'r athrawon yn holi'n gyson ac yn fedrus i ddatblygu ymhellach ymatebion a syniadau'r disgyblion. Fodd bynnag, er bod cynnwys y gwersi yn ennyn diddordeb llawer o ddisgyblion yn briodol, mae'r athrawon a'r cymorthyddion yn dueddol o orarwain y disgyblion yn rheolaidd. Mae rhediad araf cyflwyniadau yn cyfyngu ar allu'r disgyblion, yn enwedig y mwyaf abl, i gyflawni hyd eithaf eu gallu.

Mae'r athrawon yn ailstrwythuro'r cynllunio ar hyn o bryd ac yn paratoi ystod o brofiadau diddorol, er enghraifft wrth gynllunio i fynd ar daith i ddilyn rhediad afon Nyfer o'i tharddiad i'r môr. Mae cyfleoedd pwrpasol i'r disgyblion gyfrannu at eu dysgu eu hunain, yn enwedig wrth drafod eu syniadau cyn cychwyn â'r thema. Mae'r cynllunio yn adeiladu'n ddigonol ar fedrau cyfredol y disgyblion. Er bod agweddau o'r cynllunio yn llwyddo, nid yw'r newidiadau diweddar wedi gwreiddio'n ddigon cadarn i sicrhau dilyniant a pharhad ym medrau'r disgyblion. O ganlyniad, nid oes ehangder i ysgrifennu'r disgyblion ar draws y cwricwlwm ac mae eu defnydd o'u medrau rhifedd i ddatrys problemau yn annibynnol yn foddhaol.

Mae'r addysgu a'r cynllunio yn codi ymwybyddiaeth y disgyblion o'u cynefin yn llwyddiannus. O ganlyniad, mae'r disgyblion yn adrodd ar natur a chyd-destun arfordirol yr ysgol gyda balchder a dealltwriaeth gadarn. Er enghraifft, maent yn rhan o gynllun i farchnata odyn ganoloesol yr ardal ac yn rhannu hanesion hen borthladd y dref ar ffurf ffilm yn yr arddangosfa.

Mae'r athrawon yn cynnig cyfleoedd difyr i'r disgyblion gymhwyso eu medrau TGCh ar draws y cwricwlwm. Er enghraifft, maent yn defnyddio sgrîn werdd i greu sgript rhwng dau gymeriad sy'n cuddio rhag bomiau'r rhyfel yn y cwtsh dan y grisiau.

Mae'r ysgol yn annog y disgyblion i wrando ar gerddoriaeth gyfoes Gymraeg ac yn trefnu ymwelwyr i'r ysgol i gyfoethogi eu profiadau, gan gynnwys artistiaid lleol a chwaraewyr rygbi rhyngwladol. O ganlyniad, mae'r disgyblion yn datblygu dealltwriaeth gadarn o ddiwylliant a Chymreictod eu milltir sgwâr a statws Cymru yn y byd.

Ar y cyfan, mae asesiadau'r athrawon yn ddilys a chywir. Mae adborth yr athrawon yn gymorth i ddisgyblion wybod pa mor dda y maent yn ei wneud a'r hyn sydd angen iddynt ei wneud i wella, yn enwedig ar lafar. Fodd bynnag, nid yw'r adborth ysgrifenedig bob tro'n arwain at dasgau sy'n ddigon heriol ar gyfer disgyblion uwch eu gallu.

### Gofal, cymorth ac arweiniad: Da

Mae'r trefniadau i sicrhau gofal a lles y disgyblion yn gryfder. Mae'r ysgol yn gymuned ofalgar iawn â naws deuluol, gynhwysol a hapus. Mae'r staff yn annog y disgyblion i gydweithredu ac ystyried safbwyntiau eraill yn effeithiol. O ganlyniad, mae'r disgyblion yn hyderus, yn dangos parch at eraill ac mae eu hymddygiad yn gyson dda.

Mae trefniadau i olrhain cynnydd addysgol y disgyblion wedi eu mireinio yn ddiweddar. Maent bellach yn gynhwysfawr ac yn drylwyr. Gwneir defnydd da o ganlyniadau asesiadau i ddarparu cymorth priodol i'r disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol. O ganlyniad, mae rhan fwyaf o'r disgyblion yn gwneud cynnydd da o'u mannau cychwyn. Fodd bynnag, nid yw'r athrawon yn defnyddio'r wybodaeth olrhain cynnydd i baratoi gweithgareddau digon heriol i'r disgyblion mwyaf abl er mwyn codi safonau.

Mae'r ysgol yn cefnogi disgyblion ag anghenion emosiynol, iechyd a chymdeithasol yn llwyddiannus. O ganlyniad, maent yn derbyn cefnogaeth dda a chyson. Mae'r staff yn cydweithio'n bwrpasol gydag asiantaethau arbenigol a rhieni. Mae hyn yn cael effaith gadarnhaol ar ddatblygiad a chynnydd disgyblion penodol. Mae'r ysgol yn darparu cyfleoedd cadarn i sicrhau bod y disgyblion yn medru gwneud dewisiadau synhwyrol am sut i gadw'n ddiogel. Mae'r cyfleoedd yn cynnwys gwersi addysg bersonol i drafod peryglon camddefnyddio sylweddau a sut i gadw'n ddiogel ar-lein. Mae trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn bodloni gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

Mae'r sesiynau 'cwtsh clonc' yn cynnig cyfleoedd gwerthfawr i'r disgyblion drafod materion pwysig, gan gynnwys hawliau dynol, tegwch a chyfiawnder. Mae'r cyfleoedd hyn yn cyfrannu'n effeithiol i ddisgyblion ddatblygu gwerthoedd moesol sicr. Trwy amrywiaeth o weithgareddau, mae'r ysgol yn darparu'n dda i sicrhau bod y disgyblion yn deall pwysigrwydd bwyta'n iach a chadw'n heini.

Mae'r berthynas rhwng yr ysgol a'r rhieni yn gadarn dda. Mae'r ysgol yn cyfathrebu'n effeithiol gyda nhw ac yn gweithredu polisi drws agored. O ganlyniad, mae'r rhieni yn ymwybodol iawn o weithgareddau a digwyddiadau'r ysgol. Mae'r staff yn darparu sesiynau hyfforddiant defnyddiol ar gyfer y rhieni fel eu bod yn gallu cefnogi eu plant adref, er enghraifft gyda gwaith mathemateg a darllen.

Mae’r ysgol yn darparu cyfleoedd gwerthfawr i’r disgyblion gyfrannu at fywyd a gwaith yr ysgol, y gymuned leol a’r byd ehangach. Er enghraifft, maent yn cymryd rhan mewn gwasanaethau, eisteddfodau, cystadlaethau chwaraeon a gweithgareddau codi arian at achosion da. O ganlyniad, mae’r disgyblion yn datblygu dealltwriaeth dda o’u diwylliant a phwysigrwydd eu cyfraniad at gymuned yr ysgol a thu hwnt. Mae gwasanaethau dyddiol yn hyrwyddo datblygiad ysbrydol, moesol a chymdeithasol disgyblion yn effeithiol. Mae’r ysgol yn meithrin gwerthoedd cynaliadwyedd yn bwrpasol. Er enghraifft, maent yn cynnig cyfleoedd i’r disgyblion dyfu llysiau ac astudio effaith y gorddefnydd o blastig ar yr amgylchedd.

**Arweinyddiaeth a rheolaeth: Digonol ac angen gwella**

Mae gan y pennaeth ddealltwriaeth gadarn o anghenion a gweithdrefnau’r ysgol. Mae blaenoriaethau’r ysgol yn addas ar gyfer mynd i’r afael â’r agweddau sydd angen eu gwella. Mae ethos yr ysgol yn seiliedig ar fwriad eglur i bawb ‘gyrraedd y copa’. Gwelir llwyddiant hyn yn y naws ofalgar sydd yn bodoli. Mae’r gofal yn cael effaith gadarnhaol iawn ar les y disgyblion.

Mae’r pennaeth yn hybu gwerthoedd ac ymddygiadau proffesiynol perthnasol, sy’n cyfrannu’n gadarnhaol at wella’r ysgol trwy gydweithrediad effeithiol yr holl staff. Yn ddiweddar, mae'r ysgol wedi ailstrwythuro aelodaeth a chyfrifoldebau'r uwch dîm rheoli. O ganlyniad, mae gan unigolion gyfrifoldebau penodol a swydd ddisgrifiadau clir ac maent yn cyflawni eu gwaith yn gydwybodol. Mae'r uwch dîm rheoli yn cyfarfod yn rheolaidd ac maent yn dechrau cymryd rhan mewn arsylwadau gwersi a chraffu ar lyfrau er mwyn gwerthuso safonau. Fodd bynnag, nid yw’r newidiadau hyn wedi cael amser i effeithio’n gadarnhaol ar wella agweddau o’r ddarpariaeth er mwyn codi safonau.

Mae gweithdrefnau hunanarfarnu cyfredol yr ysgol yn effeithlon ac yn seiliedig ar dystiolaeth uniongyrchol. Nodir meincnodau a llinyn amser synhwyrol i fonitro a mesur llwyddiannau’r gweithgareddau gwella. Mae hyn yn galluogi’r ysgol i adnabod y meysydd dilys sydd angen eu datblygu a chynllunio camau gweithredu effeithiol. Fodd bynnag, mae llawer o'r strategaethau diweddar heb gael amser hyd yma i wreiddio'n llawn i wella’r ddarpariaeth yn gyflawn, er enghraifft y ffocws ar wella ansawdd yr addysgu i godi safonau llythrennedd a rhifedd.

Mae cynlluniau’r ysgol ar gyfer datblygu medrau’r athrawon a’r cymorthyddion yn cysylltu’n effeithiol â’r gweithdrefnau rheoli perfformiad. Mae hyn yn cael effaith gadarnhaol ar eu datblygiad proffesiynol a’u harbenigeddau. Er enghraifft, mae’r hyfforddiant i gyflwyno strategaethau gwella ymddygiad eisioes wedi cael effaith gadarnhaol iawn. Trwy dderbyn hyfforddiant a chyfarwyddo â’u cyfrifoldebau newydd, mae’r athrawon yn dechrau rhannu arferion da yn briodol ar draws yr ysgol. Fodd bynnag, nid yw’r gwaith hwn wedi’i wreiddio drwy’r ysgol eto.

Mae gan y llywodraethwyr wybodaeth briodol am berfformiad a gwaith yr ysgol. Maent yn deall amcanion yr ysgol yn dda ac yn cyflawni eu cyfrifoldebau statudol yn berthnasol. Mae eu dealltwriaeth a’u harbenigedd wrth fonitro diogelwch a lles y disgyblion yn drylwyr iawn. Er hynny, newydd gychwyn mae eu rôl i fonitro effaith yr addysgu ar safonau disgyblion.

Mae’r corff llywodraethol yn sicrhau bod yr ysgol wedi ei staffio'n briodol. Yn sgîl y newidiadau staffio diweddar, maent wedi cydweithio’n agos iawn gyda’r pennaeth i sicrhau nad yw’r newidiadau’n cael effaith negyddol ar y ddarpariaeth. Fodd bynnag, nid yw eu rôl fel ffrindiau beirniadol o ran sicrhau safonau uchel wedi datblygu’n llawn hyd yma.

Mae'r arweinwyr yn ymateb yn addas i flaenoriaethau cenedlaethol a lleol, er enghraifft wrth gyflwyno strategaethau i ddatblygu'r fframwaith cymhwysedd digidol a’r siarter iaith Gymraeg. Mae hyn yn cael effaith gadarnhaol ar safonau TGCh ac ethos Cymreig yr ysgol.

Mae’r pennaeth a’r llywodraethwyr yn gwneud defnydd pwrpasol o’r staff, yr adeilad a thir yr ysgol. Mae gan yr ysgol ystod o adnoddau o ansawdd da i hyrwyddo dysgu'r disgyblion. Mae'r pennaeth a'r llywodraethwyr yn rheoli’r gyllideb yn ofalus i ddatblygu’r ddarpariaeth, gwella safonau a chyfoethogi'r cwricwlwm. Maent yn sicrhau bod y gwariant yn cysylltu'n effeithiol â’r cynlluniau ar gyfer gwella. Mae'r ysgol yn gwneud defnydd synhwyrol o'r grant datblygu disgyblion i wella'r ddarpariaeth ac i godi safonau’r ychydig iawn o ddisgyblion sy’n gymwys i’w dderbyn.

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Mae Estyn yn arfarnu effeithiolrwydd darparwr gan ddefnyddio graddfa bedwar pwynt ar gyfer barnau:

| | |
|---|---|
| **Rhagorol** | Perfformiad ac arferion cryf iawn, cynaledig |
| **Da** | Nodweddion cryf, er y gall fod angen gwella mân agweddau |
| **Digonol ac angen gwelliant** | Cryfderau'n gorbwyso gwendidau, ond agweddau pwysig y mae angen eu gwella |
| **Anfoddhaol ac angen gwelliant ar frys** | Gwendidau pwysig yn gorbwyso cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

Ⓗ Hawlfraint y Goron 201X: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 26/11/2018